# Y POLISI A'R WEITHDREFN AR GYFER PENODI BYRDDAU ARHOLI GRADDAU YMCHWIL (ARHOLIAD VIVA)

| | |
|---|---|
| **Fersiwn** | 5.0 |
| **Dyddiad a gymeradwywyd gan y Senedd / ASQC** | Cymeradwywyd gyntaf: 31.10.2018 (Y Senedd)<br>Fersiwn gyfredol: 17.05.2022 (newidiadau sylweddol) (ASQC) |
| **Dyddiad Dod I Rym** | 01.08.2022 |
| **Perchennog Y Ddogfen** | Llywodraethu Addysg (Ansawdd a Gweithrediadau PGR) |
| **Cysylltu** | pgr@caerdydd.ac.uk |
| **Rheoleiddio Rhiant** | Rheoliadau Ymddygiad Myfyrwyr |
| **Dogfennau Cysylltiedig** | Polisi a Gweithdrefn ar gyfer Cynnal Arholiadau Gradd Ymchwil |

# CYNNWYS

Polisi .... 1
Gweithdrefn .... 2
2. Enwebu'r Arholwr Allanol .... 2
3. Dewis Yr Arholwr Mewnol .... 3
4. Dewis Y Cadeirydd .... 4
5. Cymeradwyo A Phenodi'r Bwrdd Arholi .... 4
6. Amrywiaeth O Ran Y Dclinpsy A'r Dedpsy .... 4
Atodiad: Cydymffurfio â Disgwyliadau ac Ymarferion Craidd Côd Ansawdd diwygiedig y DU ar gyfer Addysg Uwch .... 6

# Y POLISI A'R WEITHDREFN AR GYFER PENODI BYRDDAU ARHOLI GRADDAU YMCHWIL (ARHOLIAD VIVA)

Mae'r polisi a'r weithdrefn hon yn berthnasol i broses arholi PhD (gan gynnwys PhD drwy Waith Cyhoeddedig), MD, MPhil a Doethuriaethau Proffesiynol (y traethawd ymchwil neu'r gydran gyfatebol), heblaw am yr amrywiadau penodol a nodir ar gyfer y DClinPsy a'r DEdPsy.

**Polisi**

1.1 Bydd Bwrdd Arholi gradd ymchwil ar gyfer yr arholiad llafar (viva) yn cynnwys tri aelod:

.1 Arholwr Allanol;

.2 Arholwr Mewnol (neu ail Arholwr Allanol);

.3 y Cadeirydd.

1.2 Ni chaiff unrhyw unigolyn gyflawni mwy nag un o’r rolau hynny.

1.3 Ni all goruchwylydd ymgeisydd weithredu yn unrhyw un o'r rolau hyn, ond gellir ei wahodd i gymryd rhan ar gais yr ymgeisydd. Yn nodweddiadol, dim ond un o oruchwylwyr yr ymgeisydd all fod yn bresennol; dim ond gyda chytundeb holl aelodau'r Bwrdd Arholi y caiff mwy nag un fod yn bresennol.

1.4. Mewn rhai achosion, bydd ail Arholwr Allanol yn cael ei benodi yn lle'r Arholwr Mewnol. Bydd hyn yn wir lle, er enghraifft:

.1 ar adeg cyflwyno'r traethawd ymchwil, mae'r ymgeisydd yn aelod o staff y Brifysgol ar Radd 6 neu'n uwch, neu wedi bod o fewn y tair blynedd diwethaf;

.2 mae'r ymgeisydd yn dal neu wedi dal teitl anrhydeddus ym Mhrifysgol Caerdydd;

.3 mae gan yr ymgeisydd berthynas bersonol agos ag aelod o staff yn yr Ysgol.

1.5 Mae gan Gynullydd y Bwrdd Arholi gyfrifoldeb cyffredinol am drefnu a rheoli arholiadau gradd ymchwil yn yr Ysgol. Bydd Pennaeth yr Ysgol yn gweithredu fel Cynullydd neu'n penodi aelod staff academaidd awdurdodol addas arall i'r rôl.

1.6 Ni all unigolyn weithredu fel y Cynullydd ar gyfer archwilio goruchwyliwr. Pan fydd Pennaeth yr Ysgol (neu'r enwebai) hefyd yn oruchwyliwr dros yr ymgeisydd, penodir aelod arall o staff academaidd i rôl y Cynullydd.

1.7 Gall y Cynullydd fod yn Gadeirydd ar gyfer yr arholiad ond ni chaiff fod yr Arholwr Mewnol.

1.8 Bydd Cynullydd y Bwrdd Arholi yn enwebu'r Arholwr/Arholwyr Allanol.

1.9 Bydd Cadeirydd ASQC (neu ei enwebai) yn penodi'r Arholwr/Arholwyr Allanol.

1.10 Bydd enwebai Cadeirydd y Pwyllgor Safonau ac Ansawdd Academaidd (ASQC) yn penodi'r Arholwr/wyr Allanol ar ran ASQC.

1.11 Yn achos ailgyflwyno, dylid ailgyfansoddi'r Bwrdd Arholi gwreiddiol. Os na fydd un neu fwy o'r Aelodau yn gallu parhau yn eu rôl, rhaid i enwebai Cadeirydd yr ASQC neu'r Cynullydd, benodi rhywun arall, yn ôl y gofyn ar gyfer y rôl.

**Gweithdrefn**

## 2. Enwebu'r Arholwr Allanol

2.1 Ac eithrio'r DClinPsy a'r DEdPsy, bydd y goruchwylydd/goruchwylwyr yn trafod Arholwyr Allanol posibl gyda'r ymgeisydd ac yn cynnig penodiad i Gynullydd y Bwrdd Arholi.

2.2 Dylai fod gan yr Arholwr Allanol wybodaeth arbenigol gyfredol ac arbenigedd ym maes pwnc y prosiect ymchwil sydd i'w asesu. Disgwylir iddynt hefyd fod yn:

- .1 ymchwilydd profiadol a chyhoeddedig;
- .2 deiliad gradd ymchwil;
- .3 yn brofiadol o ran archwilio graddau ymchwil y DU, yn enwedig y math o radd ymchwil sy'n cael ei hasesu;
- .4 Yn aelod o staff presennol neu flaenorol o fewn y sector addysg uwch ar radd uwch ddarlithydd neu uwch, neu yn diwydiannwr amlwg, ymchwilydd neu'n ymarferwr (os yw'n berthnasol ar gyfer y traethawd ymchwil).

2.3 Lle na ellir bodloni'r meini prawf uchod, gall y Cynullydd gyflwyno achos arbennig i enwebai Cadeirydd ASQC, a all gyfeirio'r achos at Ddeon Ôl-raddedig y Coleg. Gellir penodi Arholwr Allanol heb brofiad arholi perthnasol neu â phrofiad cyfyngedig, neu sydd â swydd academaidd iau, pan fo gwybodaeth ac arbenigedd arbenigol yn ystyriaeth bwysicach, a phan fo Arholwr Mewnol a Chadeirydd profiadol wedi'u nodi.

2.4 Ni ddylai Arholwyr Allanol:

- .1 fod yn gyn-aelod o staff y Brifysgol oni bai bod cyfnod o bum mlynedd wedi mynd heibio;

.2 bod yn fyfyriwr gradd uwch yr Ysgol dan sylw oni bai bod cyfnod o bum mlynedd wedi mynd heibio;

.3 cael ei gymeradwyo i fod yn Arholwr yn yr un Ysgol fwy na dwywaith mewn cyfnod treigl o dair blynedd;

.4 yn ddeiliad contract anrhydeddus y Brifysgol;

.5 bod â gwybodaeth bersonol neu broffesiynol uniongyrchol am yr ymgeisydd: efallai eu bod wedi cwrdd yn eu cymuned ymchwil ond ni ddylai fod wedi darparu cyngor uniongyrchol na mewnbwn i brosiect ymchwil yr ymgeisydd.

2.5 Yn ogystal, pan fydd gan Arholwr Allanol gysylltiad cyfredol neu flaenorol ag un neu fwy o oruchwylwyr yr ymgeisydd, gan gynnwys cydweithrediadau ymchwil a chysylltiadau goruchwylio / rheoli llinell blaenorol, bydd y Cynullydd yn ystyried a oes didueddrwydd digonol i'w henwebu ar gyfer penodiad.

2.6 Bydd y Cynullydd yn enwebu'r Arholwr Allanol arfaethedig i enwebai Cadeirydd yr ASQC.

2.7 Gall y Cynullydd benodi cynghorwr arbenigol ychwanegol i'r Bwrdd Arholi, os oes cyfiawnhad dros hynny oherwydd pwnc sgôp y prosiect (e.e. doethuriaeth seiliedig ar ddiwydiant). Gall fynychu'r archwiliad viva i gynghori'r Arholwyr ond ni all wneud penderfyniad ar y canlyniad terfynol.

## 3. Dewis Yr Arholwr Mewnol

3.1 Dylai'r arholwr mewnol fod yn gymwys ym maes pwnc y prosiect ymchwil sydd i'w asesu a dylai:

.1 fod yn gyflogedig fel aelod o staff academaidd y Brifysgol (lle mae'r penodiad yn gymesur â'u gradd a'u rôl, yn nodweddiadol ar Radd 7 neu'n uwch), neu'n Athro/Darllenydd Emeritws;

.2 bod â phrofiad o ymchwilio i raddau ymchwil <u>neu</u> wedi cael hyfforddiant yn y rôl.

3.2 Pan fo Ysgol yn enwebu Arholwr Allanol heb fawr ddim profiad o arholi perthnasol, mae'n rhaid bod gan yr Arholwr Mewnol brofiad o arholi graddau ymchwil y DU, yn enwedig y radd sy'n cael eu hasesu.

3.3 Mae'n debygol y bydd yr Arholwr Mewnol yn adnabod yr ymgeisydd, ond ni ddylai:

.1 fod yn gysylltiedig â'r prosiect ymchwil sydd i'w asesu;

.2 wedi gweithredu fel adolygydd annibynnol yn ystod y **12 mis diwethaf** o gofrestriad talu ffi'r ymgeisydd, neu wedi adolygu'r traethawd ymchwil llawn/sylweddol.

3.4 Lle na ellir bodloni'r meini prawf uchod, gall y Cynullydd gyflwyno achos arbennig i enwebai Cadeirydd ASQC, a all gyfeirio'r achos at Ddeon Ôl-raddedig y Coleg.

3.5 Lle nad yw'n bosibl penodi Arholwr Mewnol addas o'r tu mewn i'r Brifysgol, gall y Cynullydd enwebu ail Arholwr Allanol yn lle hynny.

## 4. Dewis Y Cadeirydd

4.1 Y Cynullydd fydd Cadeirydd y Bwrdd Arholi neu bydd yn penodi aelod o staff academaidd profiadol ac awdurdodol yr Ysgol i'r rôl hon.

4.2 Mewn rhai amgylchiadau, bydd yn briodol penodi Cadeirydd o Ysgol wahanol. Dylid gwneud hyn mewn ymgynghoriad â Llywodraethu Addysg (Ansawdd a Gweithrediadau PGR).

4.3 Bydd y Cadeirydd yn gyflogai i'r Brifysgol neu'n Athro/Darllenydd Emeritws, ac nid yn ddeiliad teitl anrhydeddus.

## 5. Cymeradwyo A Phenodi'r Bwrdd Arholi

5.1 Dylai'r Cynullydd gwblhau'r Ffurflen Enwebu Arholwyr a'i dychwelyd i Lywodraethu Addysg (Ansawdd a Gweithrediadau PGR), gan anelu am o leiaf **10 wythnos** cyn i'r ymgeisydd gyflwyno ei draethawd ymchwil.

5.2 Os caiff ei gymeradwyo, bydd Llywodraethu Addysg (Ansawdd a Gweithrediadau PGR) yn rhoi cadarnhad i'r Ysgol ac yn anfon y dogfennau penodi perthnasol at yr Arholwr Allanol.

5.3 Ni ddylid penodi Arholwr Allanol fwy na **6 mis** cyn y viva.

5.4 Dylai'r Cynullydd gadarnhau enw Cadeirydd y Bwrdd Arholi a Dyddiad y viva drwy'r ffurflen berthnasol cyn y viva.

## 6. Amrywiaeth O Ran Y Dclinpsy A'r Dedpsy

6.1 Ar gyfer pob ymgeisydd DClinPsy, gall y Cynullydd yn penodi un o'r Arholwyr Allanol a gymeradwywyd yn flaenorol gan Gadeirydd ASQC ar gyfer y rhaglen.

6.2 Ar gyfer pob ymgeisydd DEdPsy, bydd y Cynullydd yn enwebu un o'r arholwyr o'r gronfa o Arholwyr Allanol a argymhellir gan gorff proffesiynol y rhaglen ar gyfer arholi elfen y traethawd ymchwil; bydd enwebai Cadeirydd yr ASQC yn penodi'r arholwr allanol.

6.3 Yn achos ymgeiswyr DClinPsy a DEdPsy, bydd yr Arholwr Allanol yn cael ei benodi yn unol â'r meini prawf a roddir yn adran 2, uchod, ac eithrio'r cyfyngiad ar amlder penodiad, gan y bydd pob Arholwr Allanol yn archwilio nifer o ymgeiswyr mewn carfan benodol.

6.4 Yn achos ymgeiswyr DClinPsy a DEdPsy, bydd y Cynullydd yn penodi Arholwr Mewnol ar gyfer y staff hynny a ddynodir gan Bennaeth yr Ysgol Seicoleg i gyflwyno ac i asesu'r rhaglen.

6.5 Pan fo angen, gellir penodi ail Arholwr Allanol yn lle'r Arholwr Mewnol.

6.6 Ar gyfer ymgeiswyr DClinPsy a DEdPsy, gall y Cynullydd benodi Arholwr Allanol â chymwysterau addas yn unol â darpariaethau safonol y Polisi a'r Weithdrefn hon.

**Atodiad: Cydymffurfio â Disgwyliadau ac Ymarferion Craidd Côd Ansawdd diwygiedig y DU ar gyfer Addysg Uwch.**

Mae'r polisi a'r weithdrefn hon yn cydymffurfio â Disgwyliadau ac Ymarferion Craidd Côd Ansawdd y DU ar gyfer Addysg Uwch:

| **Disgwyliadau ar gyfer Safonau** | **Disgwyliadau ar gyfer Ansawdd** |
|---|---|
| Mae gwerth y cymwysterau a ddyfernir i fyfyrwyr wrth iddynt gymhwyso a dros amser, yn unol â'r safonau a gydnabyddir gan y sector. | Mae cyrsiau wedi'u dylunio'n dda, ac yn rhoi profiad academaidd o safon uchel i bob myfyriwr, ac yn galluogi ffordd ddibynadwy o asesu cyrhaeddiad myfyriwr. |
| **Arferion Craidd o ran Safonau** | **Arferion Craidd o ran Ansawdd** |
| Mae'r darparwr yn defnyddio arbenigedd allanol, prosesau asesu a dosbarthu sy'n ddibynadwy, teg ac yn dryloyw. | Mae gan y darparwr staff cymwysedig digonol sy'n meddu ar sgiliau i roi profiad academaidd o safon uchel. |
| | Mae'r darparwr yn cefnogi pob myfyriwr i lwyddo yn academaidd ac yn broffesiynol. |
| **Arferion cyffredin o ran Aafonau** | **Arferion cyffredin o ran Ansawdd** |
| Mae'r darparwr yn adolygu ei arferion craidd ar gyfer safonau yn aml ac yn defnyddio'r canlyniadau er mwyn ysgogi gwelliannau. | Mae'r darparwr yn adolygu ei arferion craidd ar gyfer ansawdd yn aml ac yn defnyddio'r canlyniadau er mwyn ysgogi gwelliannau. |
| | Mae dulliau'r ddarparwr tuag at rheoli ansawdd yn ystyried arbennigedd allanol. |
| | Mae'r darparwr yn ymgysylltu â myfyrwyr yn unigol ac ar y cyd yn natblygiad, sicrwydd a gwelliant ansawdd eu profiad addysgiadol. |